Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Caban Aur

## Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2023

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Caban Aur

Mae Caban Aur yn ysgol fach annibynnol a berchnogir gan Afon Goch Children's Homes Limited, sef cwmni cyfyngedig preifat. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar ei thir ei hun, mewn lleoliad gwledig ar Ynys Môn, sydd wedi'i amgylchynu gan warchodfa natur.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar gyfer hyd at bedwar disgybl rhwng 11 ac 16 oed sydd ag ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Adeg yr ymweliad hwn, nid oedd unrhyw ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2021 a chaiff ei gynorthwyo gan ddau athro ac un aelod o staff cymorth addysgu.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd cadarn yn gwella agweddau ar y ddarpariaeth addysg ers yr ymweliad diwethaf. Erbyn hyn, mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith priodol ac amrywiaeth o adnoddau ar gyfer disgyblion sy'n eu galluogi i gynnig cwricwlwm eang a chytbwys.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae arweinwyr wedi gwella'r adnoddau sydd ar gael i ddisgyblion yn sylweddol i gefnogi eu dysgu. Mae'r ystafell ddosbarth yn olau a chroesawgar ac yn cynnwys offer sy'n briodol dda, yn enwedig o ran technolegau digidol. Er enghraifft, mae gan yr ysgol argraffydd 3D a robotiaid rhaglenadwy. Yn ychwanegol, maent wedi'u staffio'n dda gydag athrawon cymwys.

Mae arweinwyr yn yr ysgol wedi cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni achrediad ar draws ystod gyfyng o bynciau trwy gyflwyno meysydd dysgu newydd. Yn ychwanegol, mae'r pennaeth wedi sicrhau cytundeb gan ysgol leol i weithredu fel canolfan arholi i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael ymhellach i ddisgyblion yn yr ysgol.

### Meysydd i'w datblygu

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio o hyd â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer gwerthuso a gwella ansawdd ei darpariaeth yn drylwyr. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon clir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol.

Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau yn raddol ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Ni chaiff agweddau pwysig ar addysg a nodwyd mewn cynlluniau addysg unigol eu hadlewyrchu wrth gynllunio gwersi. O ganlyniad, nid yw'r cynllunio ar gyfer gwersi yn diwallu anghenion dysgu unigol y disgyblion yn briodol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol â'r tîm gofal sy'n gweithio gyda'r disgyblion, sy'n cefnogi lles yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r cartref i gefnogi dysgu ffurfiol ac anffurfiol disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr yn cysylltu'n ddigon da â staff addysg awyr agored i sicrhau bod medrau'n cael eu datblygu'n raddol o fewn y maes gwerthfawr hwn o'r cwricwlwm.

Nid yw polisïau ar gyfer diogelu disgyblion yn adlewyrchu arweiniad a deddfwriaeth briodol o ran defnyddio ffonau symudol personol. Yn ychwanegol, mae agweddau ar bolisïau'r ysgol yn parhau i gyfeirio at ganllawiau wedi dyddio Llywodraeth Cymru neu at ddeddfwriaeth Lloegr. Fodd bynnag, aeth yr ysgol i'r afael â bron pob un o'r materion hyn yn llwyddiannus yn ystod yr ymweliad.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Parhau i ddatblygu rôl ffrind beirniadol i gefnogi a herio arweinwyr a gyrru gwelliant

A3 Datblygu prosesau sicrhau ansawdd i werthuso effaith addysgu ar ddysgu

A4 Sicrhau bod y cynllunio ar gyfer medrau yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad medrau pob un o'r disgyblion

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

### A1 Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd amrywiol yn erbyn yr argymhelliad hwn.

Adeg yr ymweliad monitro diwethaf, nid oedd yr ysgol yn cydymffurfio â Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol. Ers hynny, mae'r ysgol wedi cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â'r diffygion hyn. Er enghraifft, mae wedi adolygu ei chwricwlwm, ei hachrediad a'i hadnoddau ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi gweithredu cynlluniau gwaith newydd mewn llawer o feysydd dysgu, er enghraifft mewn medrau hanfodol, addysg grefyddol a chelf. Mewn addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), mae'r ysgol wedi cyflwyno cynllun gwaith masnachol, sy'n galluogi disgyblion i fynd at wybodaeth am ystod eang o destunau perthnasol. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae llawer o'r newidiadau hyn ac nid yw'r ysgol wedi gwerthuso'u heffaith eto. O ganlyniad, barnodd arolygwyr nad yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Safon 1.

Nid oedd yr ysgol yn cydymffurfio â Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion yn y gorffennol. Nid yw'n cydymffurfio â'r rheoliad hwn o hyd. Yn ychwanegol, nodwyd meysydd newydd lle mae diffyg cydymffurfio ar yr ymweliad hwn yn gysylltiedig â Safon 6: Darparu gwybodaeth a Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion.

### A2 Egluro cyfrifoldebau'r pennaeth a darparu cymorth allanol ar gyfer arweinyddiaeth yr ysgol

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r perchennog wedi gweithio gyda'r pennaeth i ffurfioli ei rôl o fewn yr ysgol a sicrhau bod swydd-ddisgrifiad clir ar waith. Caiff rolau arweinyddiaeth eu deall yn well. Fodd bynnag, mae rolau a chyfrifoldebau am agweddau eraill ar y ddarpariaeth a gynhelir yn ystod y diwrnod ysgol, fel y ddarpariaeth addysg awyr agored, yn parhau i fod yn aneglur.

Mae'r pennaeth, ochr yn ochr â'r perchennog, wedi dechrau creu cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol a fydd yn cynnig cymorth allanol ar gyfer arweinyddiaeth yr ysgol. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r grŵp hwn. Fodd bynnag, nid yw "Ffrindiau sy'n Gefnogol Fyfyriol presennol Ysgol Caban Aur" yn meddu ar lefel addas o ddealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer cofrestru a gweithrediad ysgolion annibynnol. At ei gilydd, nid yw'r trefniadau ar gyfer cymorth a llywodraethu allanol yr ysgol yn monitro cydymffurfiad yr ysgol â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn ddigon agos, yn enwedig o ran safonau dysgu a'r cwricwlwm.

## A3 Cryfhau'r cysylltiadau gyda darparwyr allanol i ategu darpariaeth yr ysgol a galluogi disgyblion i elwa ar achrediad a chymwysterau

Ers adeg yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi dechrau datblygu ystod ehangach o gysylltiadau â darparwyr allanol yn addas. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cael cyfleoedd i drafod eu gyrfaoedd yn y dyfodol gyda Gyrfa Cymru a sefydliadau lleol eraill. Hefyd, mae'r ysgol yn datblygu portffolio o bartneriaethau profiad gwaith gan ddefnyddio cysylltiadau lleol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Yn ddiweddar, mae disgyblion wedi dilyn ystod o gymwysterau, ardystiadau ac achrediadau yn llwyddiannus. Mae'r ysgol hefyd wedi sefydlu cytundeb ffurfiol i ddefnyddio ysgol leol fel canolfan arholi allanol.

## A4 Gwella cydlynu a chynllunio medrau byw yn annibynnol, addysg awyr agored ac addysg bersonol a chymdeithasol

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) trwy brynu pecyn masnachol, sy'n cwmpasu ystod eang o destunau priodol ym maes twf a lles personol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi ymestyn y cwricwlwm yn briodol i gynorthwyo disgyblion hŷn wrth iddynt baratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y cwricwlwm newydd hwn.

Mae arweinwyr yn ymwybodol o gynnwys y sesiynau addysg awyr agored, a gyflwynir gan dimau ar wahân o fewn y sefydliad. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol unrhyw oruchwyliaeth dros y ddarpariaeth addysg awyr agored gyfan o hyd. O ganlyniad, nid yw'r cynllunio ar gyfer cydlynu medrau pwysig o fewn yr agwedd werthfawr hon ar y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd.

## A5 Sicrhau bod polisïau'r ysgol yn cyfeirio'n briodol at ganllawiau Llywodraeth Cymru ac yn arwain arfer yn yr ysgol

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas tuag at yr argymhelliad hwn mewn llawer o feysydd. Fodd bynnag, nododd arolygwyr fod nifer fach o bolisïau'r ysgol a oedd yn parhau i gyfeirio at ddeddfwriaeth Cymru neu Loegr sydd wedi dyddio yn ystod yr arolygiad. Aeth yr ysgol i'r afael â bron pob un o'r achosion hyn yn llwyddiannus yn ystod yr arolygiad.

Nid yw polisi diogelu'r ysgol yn cydymffurfio o hyd â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ar hyn o bryd, nid oes gan yr ysgol unrhyw ddisgyblion ar y gofrestr. Felly, nid yw'n bosibl gwerthuso pa mor dda y mae staff yn gweithredu polisïau'r ysgol yn ymarferol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod y polisi yn galluogi disgyblion i gaffael medrau mewn siarad / gwrando / llythrennedd / rhifedd [1(2)(c)]
- Sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu cyfle i bob disgybl ddysgu a gwneud cynnydd [1(2)(i)]

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Baratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol i gydymffurfio â Chanllawiau 283 / 2022 Llywodraeth Cymru ynghylch Cadw Dysgwyr yn Ddiogel [3(2)(b)]

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau ei bod yn trefnu bod y wybodaeth angenrheidiol am yr ysgol ar gael i rieni / gofalwyr ac awdurdodau lleoli [6(2)a, 6(2)b, 6(2)e, 6(2)g, 6(2)h, 6(2)h, 6(2)I, 6(2)j, 6(2)k]

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau ei bod yn trefnu bod y weithdrefn gŵynion ar gael ar gais i rieni disgyblion a darpar ddisgyblion [7b]

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  29/08/2023